**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Dirprwy Lywydd
Cadeirydd, Pwyllgor Craffu y Prif Weinidog

5 Ebrill 2016

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Mawrth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Chwefror.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y materion pwysig hyn drwy gydol tymor y Cynulliad, ac yn hapus i ddelio â'r sylwadau a'r ymholiadau yn eich llythyr.

**Tlodi plant**

Rydym yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau fod pobl Cymru yn cael y cymorth gorau sydd ar gael pan fyddant yn chwilio am waith addas a chynaliadwy. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes gwych o ddarparu cymorth drwy amrywiol ymyraethau sydd wedi llwyddo i symud pobl o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau i waith hirdymor; ac nid oes yr un o'r rhain wedi bod yn orfodol.

O ran cymorth ar gyfer gwaith prif ffrwd yn y DU drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, rwy'n cydnabod bod cysylltiadau cynhenid rhwng hyn a gweinyddu'r system fudd-daliadau a'i system gysylltiedig o gyfrannu'n orfodol at nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Rwy'n credu, fodd bynnag bod cyfleoedd sy'n werth eu hystyried gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i benderfynu ar ffyrdd mwy priodol i waith, sy'n annog pobl ac yn eu cynnal yn hytrach na threfn gyfyng nad yw'n addas i bawb. Ein dull bob tro yw eu gwneud yn wirfoddol, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn nifer o achosion.

Rwyf wedi cytuno'n ddiweddar gyda Llywodraeth y DU y byddwn yn cydweithio gyda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gynllunio'r Rhaglen Gwaith a Iechyd fydd yn disodli'r Rhaglen Waith yn Nghymru o fis Ebrill 2017. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes neb yng Nghymru o dan anfantais pan fyddant yn cael eu cyfeirio i'r rhaglen newydd hon. Byddaf yn sicrhau ein bod yn edrych ar bob cyfle am hyblygrwydd o fewn y drefn amodoldeb bresenol, yn enwedig ble y mae'r cymorth yn canolbwyntio ar y rhai sydd â'r daith hiraf a'r rhwystrau mwyaf i sicrhau gwaith.

Nid yw hyn wrth gwrs yn golygu nad ydym yn dymuno trosglwyddo pob cyfrifoldeb yn y maes cymorth ar gyfer cyflogaeth i Gymru cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, a chyda hynny mewn golwg byddwn yn parhau i drafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Perthynas gyda'r trydydd sector a'r sector preifat**

O ran y materion a godwyd gennych mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Trydydd Sector, rwy'n teimlo ei fod yn bwysig bod y sector yn cael cymorth i amrywio ei sylfaen gyllido a sicrhau ei fod yn llai dibynnol ar arian cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Trydydd Sector i raddau helaeth iawn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y sector yn bell o fod yn ddibynnol ar arian cyhoeddus. Mae'n anodd bod yn fanwl gywir, o ystyried maint ac amrywiaeth y Trydydd Sector yng Nghymru, ond mae gwaith ymchwil yn dangos bod oddeutu 33 y cant o incwm y Trydydd Sector yn dod o arian cyhoeddus. Nid yw'n ymddangos bod hyn wedi newid llawer yn ddiweddar.

Roedd rhai sefydliadau, fodd bynnag, yn dibynnu mwy nag eraill ar gymorth gan y llywodraeth, ac o ystyried yr hinsawdd economaidd presennol, mae ein lefel bresennol o gyllido yn annhebygol o fod yn gynaliadwy yn y dyfodol. Rydym yn ystyried yr effaith y gallai hyn ei gael ar rai sefydliadau a rhannau'r sector. Nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau y gallai ffynonellau eraill o gyllid wneud yn lle y gostyngiadau mewn arian cyhoeddus, ond mae'n amlwg yn bwysig i geisio sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly rydym yn cydweithio'n agos ag amrywiol asiantaethau, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru a Sefydliad Codi Arian Cymru, i wella capasiti a sgiliau'r Trydydd Sector yng Nghymru yn y maes hollbwysig hwn.

Mae rhoi cyngor ar godi arian yn parhau yn ganolog i waith CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol , ochr yn ochr â swyddogaethau allweddol eraill, megis gwella llywodraethu, cefnogi gwirfoddolwyr a chymeryd rhan effeithiol yn y system o gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ffocws hwn ar godi arian yn amlwg yn ein Cytundeb Partneriaeth presennol a hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nhelerau eu cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Golyga'r cymorth hwn, er enghraifft, y gall sefydliadau gwirfoddol mewn unrhyw fan yng Nghymru dderbyn cyngor arbenigol ar godi arian a gyda chymorth eu Cynghorau Gwirfoddol Sirol lleol, gael mynediad i gronfeydd data sydd â gwybodaeth fanwl am filoedd o gyllidwyr posibl, gan eu galluogi i dargedu eu hymdrechion o godi arian yn effeithiol. Caiff y pwyslais hwn ei adlewyrchu hefyd mewn cynadleddau a digwyddiadau sy'n cael eu darparu ar gyfer y sector, megis y seminar llwyddiannus iawn ar gyllido torfol fis Hydref diwethaf, gafodd ei chynnal ar y cyd gan CGGC a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant a Chwaraeon.

Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru hefyd yn parhau i dderbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru, ac wedi bod yn effeithiol iawn yn annog rhoddion ac yn rheoli grantiau ar ran ystod ehangach o ymddiriedolwyr a rhoddwyr sydd o fudd i amrywiol grwpiau cymunedol y tu hwnt i Gymru. Daw llawer o'r arian hwn i Gymru o weddill y DU a thu hwnt.

Nid oes gan Gymru nifer fawr o unigolion sy'n codi arian yn llawnamser i sefydliadau gwirfoddol. Mae nifer o'r bobl yn y Trydydd Sector, fodd bynnag, yn staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, ac mae codi arian yn rhan bwysig iawn o'u gwaith. Mae'n hollbwysig bod y bobl hyn yn derbyn yr hyfforddiant y mae ei angen arnynt i fod yn effeithiol, ac yr un mor bwysig, i sicrhau eu bod yn gweithio i'r safonau moesol uchaf fel nad oes aflonyddu ar roddwyr posibl neu fod neb yn cysylltu â hwy mewn dull amhriodol.

Mae'r diffiniad o gyllido craidd a chyllido prosiectau yn amrywio'n fawr ac fe effeithir arno gan amrywiol ffactorau, gan gynnwys maint y sefydliad sy'n derbyn y cyllid, natur y gwaith y maent yn ei wneud a thelerau'r grant penodol dan sylw. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau fod pob cyllid cyhoeddus yn helpu i sicrhau canlyniadau gweladwy, boed hyn drwy gyllid craidd neu gyllido prosiectau. Mae ein Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector

yn cynnwys ymrwymiad i'r egwyddor o Adfer y Gost Lawn. Mae'r egwyddor hon yn sicrhau bod sefydliadau sydd am gael cyllid ar gyfer gweithgareddau penodol yn gallu cynnwys cyfran briodol o'u costau craidd yn eu cais am gyllid.

**Newid Hinsawdd**

Newid Hinsawdd yw un o'r bygythiadau mwyaf i genedlaethau'r dyfodol a bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru), ar y cyd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn rhoi platfform i sicrhau y gallwn gyflymu'r gweithgarwch i fynd i'r afael â hyn ar draws pob maes.

Mae'r darpariaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau bod newid hinsawdd yn ganolog i lywodraethu, fydd yn galw am weithredu gan y llywodraeth gyfan. Bydd Deddf yr Amgylchedd yn ategu darpariaethau newid hinsawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn mynd ymhellach drwy greu sail statudol clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, sy'n cydnabod yn llawn bwysigrwydd canolog y newid yn yr hinsawdd. Bydd hefyd yn gweithio gyda fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gosod dangosyddion a cherrig milltir yn erbyn yr amcanion, i sicrhau bod llwybr clir i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod allyriadau net 2050 o leiaf 80 y cant yn is na'r llinell sylfaen. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd i osod targedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040 ac, i sicrhau bod cynnydd rheolaidd tuag at y targedau hirdymor hyn, bennu cyfres o gyllidebau carbon sy'n diffinio terfynau ar gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru dros gyfnodau dilynol o 5 mlynedd. Mae'r gyllideb gyntaf ar gyfer 2016-2020 ac yna pob pum mlyendd tan 2050, fydd yn cael ei osod ymlaen llaw.

Ar gyfer pob cyllideb, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad sy'n pennu eu cynigion a'u polisïau ar gyfer cadw at y gyllideb, sy'n cwmpasu pob un o'u cyfrifoldebau, ac o ganlyniad yn cyhoeddi datganiad terfynol sy'n nodi a ydynt wedi cadw o fewn y gyllideb neu'r targed. Mae'n rhaid penderfynu ar swm yr allyriadau a'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu dileu am gyfnod, cyn belled ag sy'n ymarferol rhesymol, ar raddfa sy'n cyd-fynd ag arferion rhyngwladol ar gyfer cofnodi carbon. Bydd yn rhaid i bob adran gydweithio'n agos i nodi a blaenoriaethu y gweithredu sydd ei angen i gyrraedd y targedau, a gwella lleisant yn gyffredinol.

Wrth bennu ein targedau, cyllidebau a chofnodi ar gynnydd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn ac ystyried cyngor gan gorff cynghori, sef Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd, i sicrhau bod allyriadau'n cael eu gostwng mewn dull sydd nid yn unig yn cyflawni ein hymrwymiadau, ond sy'n sicrhau bod cymaint â phosib o fanteision economaidd a chymdeithasol o wneud hynny.

Yn gryno, mae Deddf yr Amgylchedd yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cyllidebu carbon i gryfhau y camau pellach fydd eu hangen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, a chyrraedd saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Hyrwyddo a marchnata Cymru**

Trwy filiynau o bunnoedd, mae cyllid yr UE yn gwneud cyfraniad positif i economi Cymru, gan fynd i'r afael â gwahanol heriau a chyfleoedd yn y meysydd gwaith a hyfforddiant, cynhwysiant cymdeithasol, helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol, hybu gwaith ymchwil, arloesi, ynni adnewyddadwy a defnyddio ynni'n effeithlon, a gwella cysylltedd a datblygu dinesig.

Mae dangosyddion macro-economaidd megis Gwerth Ychwanegol Gros a chyfraddau cyflogaeth yn adlewyrchu cyfanswm rhannau yr economi gyfan. Nid yw'n bosib mesur yn gywir gyfraniad cyllid yr UE i'r prif ddangosyddion hyn, ond mae dangosyddion a gwerthusiadau ar gael i gynnig darlun cliriach o'r manteision i raglenni yr UE ledled Cymru. Er enghraifft, ers 2007, mae prosiectau yr UE wedi creu 11,910 menter a 35,570 (gros) o swyddi, a hefyd wedi helpu bron 223,000 o bobl i ennill cymwysterau a 70,135 o bobl i waith. Mae'r llwyddiannau hyn, yn eu tro, yn gwneud cyfraniad positif i'r Gwerth Ychwanegol Gros a lefelau cyflogaeth ledled Cymru. Mae data gwerthuso rhaglenni ar gael hefyd. Er enghraiff, mae Arolygon o'r rhai a adawodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop rhwng 2009 a 2013 yn dangos bod y rhai sy'n economaidd anweithgar a fanteisiodd ar y Gronfa 51 y cant yn fwy tebygol o ddod o hyd i waith ar ddiwedd 12 mis o gymharu â'r rhai nad oedd wedi elwa o'r Gronfa.

Mae hefyd fanteision sylweddol o ran Cronfeydd Strwythurol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n gysylltiedig â'r sicrwydd o gyllid yr UE dros saith mlynedd, sydd yn ei dro yn annog buddsoddiad ategol gan y sector preifat. Mae Campws y Bae ym Mhrifysgol Abertawe, sydd o safon fyd-eang, yn ddim ond un o nifer o enghreifftiau; mae wedi derbyn cyllid o £40 miliwn gan yr UE a £15 miliwn gan Lywodraeth Cymru, agorodd y Campws ei ddrysau i dros 5,000 o fyfyrwyr fis Medi diwethaf, ac mae'n anelu at gynhyrchu oddeutu £3 biliwn o effaith economaidd dros gyfnod o ddeng mlynedd drwy weithgarwch adeiladu, ymchwil, a buddsoddiad myfyrwyr a busnesau.

Mae rhaglenni cyllido yr UE hefyd yn gwneud cyfraniad positif i Gymru hefyd drwy arferion gorau gweithio mewn partneriaeth, hyrwyddo diwylliant o werthuso ymhlith prosiectau ac integreiddio cyfle cyfartal, cynaliadwyedd amgylcheddol ac amcanion trechu tlodi wrth gyflawni prosiectau.

Mae'n werth nodi hefyd bod cyllid yr UE yn gweithio mewn gwahanol rannau o economi Cymru, gan greu effaith wahanol. Er enghraifft: mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn canolbwyntio ar gadernid a chystadleuaeth yn yr economïau amaethyddol a gwledig yng Nghymru; mae'r rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol Ewropeaidd yn gweithio mewn partneriaeth ar draws rhanbarthau'r UE i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cyffredin, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd; mae Horizon 2020 yn canolbwyntio ar ragloriaeth ym myd ymchwil, arweinyddiaeth ddiwydiannol a masnacheiddio gwaith ymchwil ar gyfer sefydliadau ymchwil a Busnesau Bach a Chanolig; ac mae ERASMUS+ yn canolbwyntio ar addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon ledled yr UE.

**Penodiadau Cyhoeddus Amlwg**

Ar 11 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad Syr Gerry Grimstone o benodiadau cyhoeddus: Better Public Appointments – a review of the public appointments process. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/507066/Better_Public_Appointments_March_2016.pdf

Mae'r adolygiad hwn yn gwneud cyfres o argymhellion sy'n argymell newid i ddull sy'n seiliedig ar egwyddorion fydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y broses benodi a rheoleiddio. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn ystyried penodiadau cyhoeddus amlwg, ac yn gysylltiedig â'r rhain bydd Llywodraeth Cymru yn nodi pa benodiadau, (megis penodiad y Comisiynydd a chadeiryddion y byrddau) y dylid eu hystyried fel rhai pwysig sydd angen mwy o ofal wrth ddelio â hwy.

Bydd Llywodraeth y DU yn penodi Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus newydd ar ddiwedd Mawrth 2016. Yr ymgeisydd a ffefrir yw Peter Riddell. Bydd Côd Llywodraethu newydd yn pennu'r safonau y bydd yn rhaid i'r system penodiadau cyhoeddus ei bodloni. Unwaith y bydd hwn ar gael bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar y system bresennol i

nodi'r newidiadau sydd eu hangen ac ar yr un pryd yn edrych ar swyddogaethau'r Comisiynydd i weld a oes angen mwy o gysondeb o ran swyddogaethau'r Comisiynwyr.

**Iaith Gymraeg**

Ein huchelgais yw gweld yr iaith Gymraeg yn goroesi, a byddai'n rhoi pleser mawr imi weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn canol y ganrif hon. Rydym eisoes yn meddwl am lewyrch hirdymor yr iaith Gymraeg, gan ei gwneud yn ganolog i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus ystyried yr iaith wrth wneud penderfyniadau. Daw ein strategaeth bresennol - *Iaith Fyw: Iaith Byw* – i ben y flwyddyn nesaf, a'r llywodraeth nesaf fydd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y dyfodol.

**Materion Cyfansoddiadol**

O ran y materion cyfansoddiadol a godwyd gennych, rwyf wedi trafod gyda'm swyddogion oblygiadau y Twrnai Cyffredinol yn cyfeirio Bil o Gymru i'r Goruchaf Lys ynghylch datblygiad y Bil hwnnw. Tra bo Gorchymyn Sefydlog 26.77 ar hyn o bryd yn rhwystro ail-ystyried Bil a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys gan Gynulliad gwahanol i'r un y cafodd y Bil ei gyflwyno iddo, mae Adran 116(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer ail-ystyried Bil yn wedi iddo gael ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys. Mae'n datgan:

*(6) Bod yn rhaid i orchmynion sefydlog ddarparu ar gyfer cyfle i ailystyried Bil ar ôl ei basio os (a dim ond os) -*

*(a) y bydd y Goruchel Lys yn penderfynu ar gyfeiriad sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ohono o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad…*

Nid wyf yn credu bod problem gyda'r ddeddf bresennol a fyddai'n arwain at Fil yn cael ei golli o ganlyniad i'r Twrnei Cyffredinol neu'r Cwnsel Cyffredinol yn cyfeirio'r Bil i'r Goruchel Lys yn fuan cyn etholiad y Cynulliad, ac felly ni ddeliwyd â'r mater hwn yn y Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn naill ai Deddf Llywodraeth Cymru 2006 neu'r Bil Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru draft sy'n rhwystro un Cynulliad rhag ail-ystyried Bil Cynulliad blaenorol pan fo'r amseru ar gyfer cyfeirio i'r Goruchel Lys a phenderfyniad y Llys wedi hynny yn arwain at y Cynulliad yn penderfynu bod angen ail-ystyried.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod Gorchymyn Sefydlog 26.77 yn galw am newid brys i sicrhau bod y Gorchmynion Sefydlog yn cydymffurfio ag Adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, o dan eiriad presennol y Gorchmynion Sefydlog, bydd Bil y Cynulliad sydd angen ei ail-ystyried yn dilyn dyfraniad gan y Goruchel Lys yn methu os nad yw wedi cael ei gymeradwyo cyn chwalu y Cynulliad perthnasol. Felly mae'n bosib na fyddai llawer o amser, neu dim amser o gwbl i ailystyried Bil sy'n cael ei gyfeirio i'r Goruchel Lys tuag at ddiwedd tymor Cynulliad. Mae hyn yn amlwg yn fater o bryder mawr i Lywodraeth Cymru, ac rwy'n deall bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno cyfeirio'r mater hwn at Bwyllgor Busnes y Cynulliad nesaf i'w ystyried ar ddechrau'r tymor. Rwy'n cefnogi hyn yn llawn ac yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Gorchmynion Sefydlog cyn gynted â phosib.

Yn gywir

**CARWYN JONES**